Bu'r plant yn y sinema yn Aberystwyth un bore a bu iddynt fwynhau eu hunain yn gwylio'r gwahanol ffilmiau. Wedi dychwelyd cyflwynodd y plant hyn ddrama a gynhyrchwyd ac a ysgrifennwyd ganddynt hwy eu hunain a rhaid yw eu llongyfarch ar eu menter. Bu i'r gweddill o'r disgyblion a'r staff fwynhau'r cyflwyniad yn fawr. Da iawn bawb ohonoch.

Hyfryd yw medru estyn croeso i bedwar disgybl newydd sef Lucy Bennett, Carys Evans, Rhys Jeremiah a David Jones. Maent wrth eu bodd yn nosbarth Mrs. Williams.

Croeso hefyd i Mr. Adrian Havard sy'n dod yma unwaith yr wythnos fel rhan o'i gwrs gradd yn y Brifysgol yn Aberystwyth a chroeso'n ôl i Mr. Robert Sanders, myfyriwr o'r un coleg sydd yma'n gwneud ymarfer dysgu am y tymor.